**Jane Hutt AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/LG/0691/17

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2 Tachwedd 2017

Annwyl Elin

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri yn achos cyflwyno'r Rheoliadau diwygio uchod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er eich gwybodaeth.

**Cefndir**

Sefydlwyd Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel) o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ar 1 Ebrill 2016. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys adolygu cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill a helpu pobl yn y sector amaethyddol i wella'u sgiliau a datblygu'u gyrfa.

Ar hyn o bryd, telir gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn unol â'r cyfraddau a nodir yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016. Daeth y gorchymyn hwnnw i rym ar 26 Chwefror 2016, y gorchymyn cyflogau cyntaf o dan Ddeddf 2014. Roedd Adran 4(2) y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion gyflwyno gorchmynion cyflogau cyn sefydlu'r Panel.

Cytunodd y Panel i godi cyflogau amaethyddol a chafwyd ymgynghoriad ar y cynigion yn hydref 2016. Yn ôl amserlen wreiddiol y Panel, y bwriad oedd i'r Gorchymyn newydd ddod i rym ar 1 Ebrill, yr un pryd â'r cynnydd i Gyflog Byw Cenedlaethol ac Isafswm Cyflog Cenedlaethol y DU. Daeth y cyfraddau cyflog newydd i weithwyr amaethyddol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i rym ar y diwrnod hwnnw hefyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Amcan y Panel oedd alinio'r cynnydd i isafswm cyflog gweithwyr amaethyddol â'r newidiadau i'r Cyflog Byw a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni fu'n bosib dod â'r cynigion i rym ar 1 Ebrill.

Bu'n rhaid rhoi'r Gorchymyn yn ôl i'r Panel iddo gael ei ailystyried, ac o ganlyniad bu oedi cyn cyflwyno'r Gorchymyn newydd. Rhestrir swyddogaethau'r Panel yn Erthygl 3(2) o Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016, a wnaed o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Mae'r swyddogaethau hynny'n cynnwys paratoi gorchmynion cyflog drafft a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo. Yn unol ag Adran 4(1) o Ddeddf 2014, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i a) gymeradwyo a gwneud y gorchymyn neu b) anfon y gorchymyn yn ôl i'r panel iddo ei ailystyried.

Cynigiodd y Panel bod holl ddarpariaethau Gorchymyn 2017 yn cael eu hôl-ddyddio. Byddai gwneud hynny i Orchymyn 2017 yn digolledu'r gweithwyr amaethyddol hynny oedd wedi disgwyl codiad yn eu cyflog fesul awr a'u lwfansau o 1 Ebrill 2017.

Dyma oedd y tro cyntaf i'r Panel baratoi gorchymyn cyflogau drafft ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2016 a chafwyd rhai anawsterau wrth sefydlu proses effeithiol ar gyfer gwneud gorchmynion cyflogau newydd yn unol â gweithdrefnau statudol Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 a Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016.

Tan y daw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017 i rym, mae gofyn i gyflogau gweithwyr amaethyddol Cymru gyfateb i lefelau'r Cyflog Byw/Isafswm Cyflog Cenedlaethol sy'n drech nag Isafswm Cyflogau Amaethyddol Cymru. Rhag creu anawsterau ac i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â chyfraddau'r Isafswm Cyflog Amaethyddol y cytunir arnynt gan y Panel ac yn uwch na lefelau'r Cyflog Byw/Isafswm Cyflog Cenedlaethol, cynigir bod yr Offeryn Statudol yn torri'r rheol 21 niwrnod.

Trwy dorri'r rheol 21 niwrnod, cwtogir ar yr oedi cyn dod â'r cyfraddau cyflog newydd y cytunir arnynt i rym a rhoi amodau cyflogaeth teg a chyflog teg i weithwyr amaethyddol Cymru, gan roi'r un amodau ffafriol iddynt ag a roddir i weithwyr yn y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Teimlir bod angen a chyfiawnhad torri'r rheol 21 niwrnod yn yr achos hwn gan y bydd yn cwtogi ar unrhyw oedi pellach cyn y gellir codi cyfraddau cyflogau amaethyddol, gan dorri ar hyd y cyfnod pan y bydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru'n cael eu talu ar lefelau'r Cyflog Byw/Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r cyfraddau'r Gorchymyn 2016, yn hytrach na chyfraddau'r Isafswm Cyflogau Amaethyddol o fewn Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Chris Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip